



Polisi Corfforaethol - 01

Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae'r Polisi Iechyd a Diogelwch yn cynrychioli sylfaen gyffredin lle bwriada'r Gwasanaeth adeiladu safon uchel o berfformiad Iechyd a Diogelwch.

Mae gwella perfformiad ein hiechyd a'n diogelwch yn brif nod ac yn sylfaenol i weithrediad effeithlon y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn ymrwymedig i weithio o dan adain y polisi hwn gan gymryd llesiant gweithwyr, contractwyr, ymwelwyr ac eraill a all gael eu heffeithio gan ein gweithrediadau yn ddifrifol a disgwylir yr un ymrwymiad gan bob gweithiwr.

Mae'r Gwasanaeth yn hyderus, gydag ymrwymiad a phenderfyniad llwyr, cawn weithredu'r polisi yn llwyddiannus a gwella perfformiad ein hiechyd a'n diogelwch yn gynyddol.

DATGANIAD O FWRIAD

Heb orfodaeth, mae'r Gwasanaeth yn derbyn cyfrifoldeb o ran cyflawni safonau perfformiad iechyd a diogelwch graddol uwch ym mhob agwedd o'i weithgareddau wrth integreiddio iechyd a diogelwch yn llwyr i system rheoli'r Gwasanaeth ac aseinio statws cyfartal i ddangosyddion perfformiad allweddol eraill. Dim ond gydag ymglymiad llawn gan bob gweithiwr, contractwr ac ymwelydd y gellir cynnal yr ymrwymiad hwn i sicrhau iechyd a diogelwch, wrth ddeall a chyfrannu'n llawn i'r Polisi Iechyd a Diogelwch

Mae'r Gwasanaeth yn benderfynol o sicrhau fel un o'i nodau fod safonau iechyd a diogelwch ymysg yr uchaf o fewn y DU. Arddangosir hyn wrth osod blaenoriaethu amcanion clir o'r hyn sydd i'w gyflawni, gan bwy ac o dan ba derfynau amser i gyflawni cydymffurfiaeth reolaethol lawn a gostyngiadau blwyddyn ar ôl flwyddyn mewn lefelau damweiniau.

Bydd y Gwasanaeth yn cyflawni safonau uchel o ran perfformiad iechyd a diogelwch wrth:

- Benodi Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch i ddarparu arweinyddiaeth gref o'r brig i reoli iechyd a diogelwch;
- Ddarparu'r strwythur, trefniadau ac adnoddau sefydliadol angenrheidiol yn nhermau gweithwyr, cyllid a sgiliau rheoli;
- Roi blaenoriaeth uchel i berfformiad iechyd a diogelwch;
- Gymryd cyfrifoldeb llawn am eu gweithrediadau a'u hepgoriadau;
- Ddarparu ymgynghoriad effeithiol ar y cyd â gweithwyr a'u cynrychiolwyr ac annog cyfranogiad cadarnhaol ym materion iechyd a diogelwch;
- Cyfleusterau a threfniadau digonol am les gweithwyr;
- Ysgrifennu gweithdrefnau a chyfarwyddyd clir sy'n dilyn arfer orau Rheoli Iechyd a Diogelwch fel yr amlinellwyd o fewn HS(G) 65;
- Fonitro, adolygu ac archwilio ein gweithdrefnau, dysgu o'r canlyniadau a chymryd camau prydlon i gywiro diffygion;
- Ymchwilio i bob anaf, salwch a methiant agos, gan ddysgu o'r canlyniadau a sbarduno camau cywiro prydlon lle bo'r angen;
- Dynnu sylw at y polisi hwn ac fe'i gwnaed ar gael i bob gweithiwr a chaiff ei fonitro, ei adolygu a'i ddiwygio yn ôl y gofyn.

Llofnodwyd:

R Prendergast

Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch

DBST Gwasanaethau Technegol

Dyddiad: 08/10/2019